LEG-28-2001 (min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 4 Rhagfyr 2001
**Amser:** 9.00 a.m
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Brian Gibbons | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Peter Law | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |
| **Swyddogion** | |
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Glyn Davies, Dai Lloyd ac Alun Pugh

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi: LEG-27-2001 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd i’r Pwyllgor.

2.2. Atgoffodd y Cadeirydd yr aleodau y byddai Mr Winston Roddick QC, y Cwnsler Cyffredinol yn mynychu'r cyfarfod nesaf i drafod ei adroddiad ar "Gweithredu System Ddeddfu a Chyfiawnder sy'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Adroddiad pellach y gwersi yn sgîl profiad Canada."

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC378: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 12) 2001**

3.1 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.3. Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC378 (Adroddiad).

**LC379: Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 12) 2001**

3.4 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC378 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**

4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Rhagfyr 2001.

4.2 Yn dilyn y cyfarfod ymwelodd yr Aelodau â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol am sesiwn friffio ynglí n â'r broses o Ddrafftio Deddfau'r Cynulliad.